





## Helpwch siapio dyfodol cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Rydyn ni wedi lansio ymgynghoriad 12 wythnos ar ddylunio cymwysterau **Sgiliau Hanfodol Cymru** newydd.

Mae'r cymwysterau rydyn ni'n bwriadu eu diwygio yn cwmpasu pynciau cymhwyso rhif, cyfathrebu a llythrennedd digidol. Maen nhw wedi cael eu cynllunio i'w defnyddio mewn cyrsiau ôl-16 mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Rydyn ni wedi lansio **arolwg ar-lein** i gael adborth pwysig ar ein cynigion.

Byddwn ni'n dadansoddi ac yn ystyried pob ymateb a dderbynnir ac yn cyhoeddi adroddiad penderfyniadau a chrynodeb o'r ymatebion yn nhymor yr haf 2026. Mae'r ymgynghoriad ar-lein yn cau ar 5 Chwefror.

Ymunwch â **gweminar am ddim** ar 25 Tachwedd i ddysgu mwy.

## Help shape the future of Essential Skills Wales qualifications

We've launched a 12-week consultation on on the design of new **Essential Skills Wales** qualifications.

The qualifications we intend to reform cover the subjects of application of number, communication and digital literacy. They are designed for use in post-16 courses in further education and work-based learning. We've launched an **online survey** to gain important feedback on our proposals.

We will analyse and consider all responses received and publish a decisions report and a summary of the responses in the summer term 2026. The online consultation closes on 5 February.

Join our **free webinar** on 25 November to find out more.




## Cyhoeddi Adroddiad Penderfyniadau cymwysterau UG a Safon Uwch yn y Gymraeg

Rydyn ni wedi cyhoeddi **Adroddiad Penderfyniadau cymwysterau UG a Safon Uwch yn y Gymraeg,** sy'n darparu manylion am gymwysterau UG a Safon Uwch newydd mewn Iaith a Ilenyddiaeth Gymraeg a Cymraeg Craidd.

Bydd y cymywsterau hyn yn disodli'r cymwysterau UG a Safon Uwch presennol mewn Cymraeg iaith gyntaf a Cymraeg ail iaith o fis Medi 2027 ymlaen.

Nod y newidiadau yw gwneud cyrsiau'n fwy hylaw a gafaelgar, gyda chynnwys wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion.

Yn unol ag amcanion polisi strategol ehangach Llywodraeth Cymru, mae'r cymwysterau'n cefnogi uchelgais genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a pharatoi dysgwyr ar gyfer addysg uwch a gweithlu dwyieithog.

## Publication of AS and A levels in Cymraeg Decisions Report

We have published an **AS and A levels in Cymraeg Decisions Report**, which provides details of new AS and A levels in Cymraeg language and literature and Core Cymraeg.

These qualifications will replace the current AS and A levels in Welsh first language and Welsh second language from September 2027.

The changes aim to make courses more manageable and engaging, with updated content reflecting skills valued by employers and universities.

Developed in line with Welsh Government’s broader strategic policy aims, the qualifications support the national ambition to increase the number of Welsh speakers and prepare learners for higher education and a bilingual workforce.




## Rydyn ni wedi cyhoeddi ein hadolygiad o gymwysterau gwallt a harddwch

Yn dilyn adolygiad helaeth, rydyn ni wedi cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad sector Cam 2 Gwallt a Harddwch. Dysgwch fwy: **Llwyddo mewn Steil**.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr adolygiad neu ein hadroddiad cyhoeddedig, cysylltwch â adolygiadausectorcam2@cymwysterau.cymru




## Rydyn ni'n chwilio am adolygwyr cymwysterau

Rydyn ni'n chwilio am addysgwyr profiadol a gweithwyr addysgol proffesiynol i weithio ochr yn ochr â'n Tîm Cymeradwyo i'n helpu ni i gymeradwyo'r cymwysterau newydd mewn Teithio a Thwristiaeth a Lletygarwch ac Arlwyo. Ymgeisiwch drwy **GwerthwchiGymru**.

## We've published our review of hair and beauty qualifications

Following an extensive review, we have published the findings of our Hair & Beauty Phase 2 sector review. Find out more: **Styled for Success report**.

If you have any queries about the review or our published report, please contact phase2sectorreviews@qualifications.wales




## We're looking for qualification reviewers

We're looking for experienced educators and educational professionals to work alongside our Approvals Team to help us approve the new Travel and Tourism and Hospitality and Catering qualifications. Apply via **Sell2Wales**.




## Help llaw i ddysgwyr ar arholiadau ac asesiadau 2025-2026

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cyhoeddi ein **Help llaw ar gyfer arholiadau ac asesiadau**, sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol fel dyddiadau allweddol, gwybodaeth am raddio a chymorth adolygu. Rhannwch hyn gyda chydweithwyr, dysgwyr a'u rhieni a gwarcheidwaid.

## Adnoddau newydd sy'n mapio cymwysterau galwedigaethol yn ôl sector

Yn dilyn adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau galwedigaethol, rydyn ni wedi gweithio gyda rhanddeiliaid a dysgwyr i gynhyrchu mapiau o'r cymwysterau galwedigaethol. Mae rhain wedi cael eu cynllunio i gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw ystyried eu cyfleoedd ac opsiynau wrth symud ymlaen i'r cam nesaf: **Adnoddau Taith y Dysgwr**

## A Learner's guide to exams and assessments 2025-2026

We've recently published our **Learner Guide to Exams and Assessments** which includes helpful info such as key dates, information on grading and revision support. Please share this with colleagues, learners and their parents and carers.

## New resources that map our vocational qualifications by sector

Following Welsh Government's review of vocational qualifications, we've worked with stakeholders and learners to produce vocational qualification maps, designed to support learners as they consider their options and progression opportunities: **Learner Journey resources**

CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL NATIONAL QUALIFICATIONS

## Cyhoeddi pa gyrff dyfarnu fydd yn darparu cymwysterau TAAU, Sylfaen a Sgiliau Newydd

Mae wyth corff dyfarnu wedi cael eu cydnabod i ddarparu'r Cymwysterau Cenedlaethol newydd sy’n dod ym mis Medi 2027. Bydd cymwysterau TAAU, Sylfaen a’r Gyfres Sgiliau yn cael eu cynnig gan un neu fwy o'r cyrff dyfarnu canlynol:

- Agored Cymru
- King’s Trust
- Open Awards
- Pearson
- RSL Awards
- TLM
- VCTC Skills
- CBAC

Gallwch chi ddysgu mwy am ddatblygiad y cymwysterau hyn ar dudalen 23 o'n **canllaw i'r Cymwysterau Cenedlaethol** ar gyfer canolfannau.

## Awarding bodies to deliver new VCSE, Foundation and Skills Suite qualifications announced

Eight awarding bodies have been recognised to deliver the new National Qualifications coming in September 2027. VCSE, Foundation and Skills Suite qualifications will be offered by one or more of the following awarding bodies:

- Agored Cymru
- King’s Trust
- Open Awards
- Pearson
- RSL Awards
- TLM
- VCTC Skills
- WJEC

Find out more about the development of these qualifications on page 23 of our **guide to the National Qualifications** for centres.




## Esbonio TGAU Ton 2

Yn ddiweddar, rydyn ni wedi lansio cyfres o flogiau sy'n archwilio'r nodweddon allweddol a'r newidiadau yn y cymwysterau TGAU newydd sy'n dod i ysgolion a cholegau ym mis Medi 2026. Gallwch chi ddarllen y blogiau cyntaf yma:

- **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**
- **TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Gradd Unigol)**
- **TGAU Hanes**
- **TGAU Dawns**

## Wave 2 GCSEs explained

We've recently launched a blog series exploring the key features and changes in the new GCSEs coming to schools and colleges in September 2026. You can catch up on the first blogs here:

- **GCSE The Sciences (Double Award)**
- **GCSE Integrated Science (Single Award)**
- **GCSE History**
- **GCSE Dance**

---




## Cymerwch ran yn ein harolwg ar y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd

Mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu Alma Economics i gynnal ymchwil gwerthuso o'r Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd.

## Take part in our survey on new National 14-16 Qualifications

Qualifications Wales has commissioned Alma Economics to carry out evaluation research into the new National 14-16 Qualifications.

Nod y prosiect yw deall sut mae'r cynnig yn cael ei weithredu ac a yw'r manteision arfaethedig yn cael eu gwireddu.

Fel rhan o'r ymchwil, rydyn ni'n gwahodd ymarferwyr addysgu, uwch arweinwyr a rhieni dysgwyr ym Mlwyddyn 10 i gymryd rhan mewn arolwg. Os hoffech chi gymryd rhan yn yr arolwg hwn, cliciwch **yma**.

The project aims to understand how the offer is being implemented and whether the intended benefits are being realised.

As part of this research, we are inviting teaching practitioners, senior leaders and parents of learners in Year 10 to take part in a survey. If you would like to take part in this survey, click **here**.




## Ymunwch â'n grwpiau ymarferwyr Cymwysterau Cyffredinol

Rydyn ni’n gwahodd athrawon i ymuno â'n grwpiau ymarferwyr Cymwysterau Cyffredinol. I ddechrau, hoffen ni ymgysylltu â'r grwpiau hyn i'n helpu ni i ddeall beth yw profiadau ysgolion ledled Cymru wrth iddyn nhw weithredu’r cymwysterau TGAU newydd. Bydd grŵp ymarferwyr ar gyfer pob pwnc.

I ddechrau, bydd pob grŵp yn cyfarfod ar-lein **ddwywaith y flwyddyn**. Mae'r cyfarfod cyntaf ar gyfer pynciau Ton 1 wedi ei drefnu ar gyfer **Chwefror / Mawrth 2026**, gyda'r ail gyfarfod tua diwedd tymor yr haf.

Byddwn ni’n dechrau ymgysylltu â grwpiau

## Join our General Qualification practitioner groups

We’re inviting teachers to join our General Qualification practitioner groups. Initially we would like to engage with these groups to help us understand how the implementation of the new GCSEs is going in schools across Wales. There will be a practitioner group for each subject.

Initially, each group will meet online **twice a year**. The first meeting for Wave 1 subjects is scheduled for **February / March 2026**, with the second meeting towards the end of the summer term.

We will begin engagement with Wave 2

pwnc Ton 2 yng ngwanwyn 2027. Rydyn ni'n rhagweld y bydd cyfarfodydd yn digwydd y tu allan i oriau addysgu arferol yr ysgol, gan bara dim mwy na dwy awr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno, anfonwch e-bost at diwygio@cymwysterau.cymru gan nodi enw eich ysgol a'ch pwnc. Nodwch hefyd a ydych chi'n addysgu UG a Safon Uwch yn y pwnc hwn.

subject groups in spring 2027. We anticipate that meetings will take place outside of typical school teaching hours, and will last no more than two hours.

If you are interested in joining, please email reform@qualifications.wales noting the name of your school and subject. Please also note whether you teach AS and A levels in this subject.




## Archebwch le yn ein Fforwm Cyrff Dyfarnu

Rydyn ni'n gofyn i gydweithwyr o gyrff dyfarnu **archebu eu lle** yn ein fforwm blynyddol a gynhelir y mis nesaf.

Bydd y digwyddiad yn hybrid, gyda'r opsiwn i ymuno ar-lein neu wyneb yn wyneb yn ein swyddfeydd yng Nghasnewydd, ddydd Iau 11 Rhagfyr 2025.

Byddwn ni'n rhannu gwybodaeth ac yn rhoi cyfleoedd i chi drafod ein blaenoriaethau strategol.

## Book your place at our Awarding Bodies Forum

Colleagues from awarding bodies are asked to **book their place** at our annual forum next month.

The event will be hybrid, with an option to join online or in person at our offices in Newport, on Thursday 11 December 2025.

We will provide you with information and opportunities for discussion on our strategic priorities.



## Cyhoeddiadau diweddar

Ystyriaeth arbennig ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yng Ngymru: Haf 2025

Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2024 i 2025

## Recent publications

Special consideration in GCSE, AS and A level in Wales for GCSE, AS and A level in Wales: Summer 2025

Entries and late entries for GCSE and A level in Wales: 2024 to 2025 academic year

## Gohebiaeth ddiweddaraf

Edrychwch ar ein holl lythyrau diweddar at Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig, Penaethiaid Canolfannau, a rhanddeiliaid eraill ar ein tudalen we bwrpasol.

## Latest correspondence

Take a look at all our recent letters to recognised awarding body Responsible Officers, Heads of Centres, and other stakeholders on our dedicated webpage.

Ar gyfer Penaethiaid, Swyddogion Arholiadau a Swyddogion Cyfrifol: Rydych yn derbyn y postio hwn fel cyswllt cynradd mewn sefydliad rhanddeiliaid. Sylwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan sail gyfreithiol prosesu er budd y cyhoedd ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau 2015. Am fwy o fanylion cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd..

For Heads, Exam Officers and Responsible Officers: You are receiving this mailing as a primary contact at a stakeholder organisation. Please note that we retain your contact details on our systems under the legal basis of processing in the public interest and in accordance with our statutory functions under section 46 of the Qualifications Act 2015. For further details please refer to our privacy notice.

© 2022 Microsoft Dynamics. All rights reserved.
Q2 Building, Pencarn Lane, Imperial Park, Coedkernew, Newport NP10 8AR